**LC438**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**
**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) (Cymru) 2002**

Mae’r gorchymyn hwn yn addasu deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy’n ganlyniadol i ddarpariaethau Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Gwnaed darpariaeth i’r un perwyl ar gyfer Lloegr yn OS 2001/2237.

Ac eithrio mewn dau le, bwriedir i’r diwygiadau ar gyfer Cymru fod yn union yr un fath â’r rhai a wnaed ar gyfer Lloegr. Gan hynny, yn ddarostyngedig i’r eithriadau hyn, ceir testun cyson mewn deddfwriaeth sy’n gymwys yng Nghymru ac yn Lloegr. Er hynny, mewn dau le, bu’n rhaid i’r Cynulliad wneud darpariaeth wahanol am fod diwygiadau ar gyfer Lloegr yn cynnwys cyfeiriadau penodedig sy’n berthnasol i Loegr yn unig. Yn y lleoedd hyn, er mwyn osgoi bod is-adrannau yn cynnwys testunau gwahanol ar gyfer Cymru a Lloegr, cafwyd rhifau gwahanol yn y diwygiadau ar gyfer Cymru fel a ganlyn -

- Yn y diwygiadau i adran 74 o Ddeddf Cludiant 1985 cafodd yr amnewidiadau ar gyfer is-adrannau (4) a (6) eu rhifo â (4A) a (6A) er mwyn osgoi gwrthdaro ag is-adrannau (4) a (6) fel y’u hamnewidiwyd ar gyfer Lloegr. (Erthygl 12(b) ac (c)).
- Yn adran 115B a fewnosodir i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 nid oes is-adran (11). Mae hyn yn osgoi gwrthdaro ag is-adran (11) sy’n gymwys yn Lloegr yn unig. (Erthygl 20(1)).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Gorchymyn hwn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i nodi nifer o bwyntiau drafftio sydd bellach wedi cael eu

cymryd i ystyriaeth.  Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

12 Mawrth 2002